



Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

27 Awst 2021

Annwyl Elin

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2021

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym am 4.00am ar 30 Awst 2021, ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Mae'r offeryn statudol hwn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 er mwyn:

- tynnu Montenegro a Gwlad Thai oddi ar y "rhestr oren" a'u hychwanegu at y "rhestr goch" o wledydd a thiriogaethau
- tynnu Açores, Canada, Denmarc, y Ffindir, Liechtenstein, Lithwania a'r Swistir oddi ar y "rhestr oren" a'u hychwanegu at y "rhestr werdd" o wledydd a thiriogaethau
- caniatáu i bobl ifanc dan oed sy'n teithio ar eu pen eu hunain o wledydd sydd ar y rhestr goch i fynychu addysg uwch yng Nghymru gael eu hesgusodi rhag mynd i gwarantyn a reolir yn Lloegr ac, yn hytrach, ynysu mewn llety yng Nghymru;
- ychwanegu'r digwyddiadau canlynol ar y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon penodedig:
 - Cystadleuaeth y Champions Hockey League
 - Rowndiau rhagbrofol Cwpan y Byd FIH i Ddynion (grŵp Ewropeaidd)

Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol; o ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services